**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Argraffwyd yr Offeryn Statudol hwn yn lle'r OS sy'n dwyn yr un rhif ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offeryn Statudol hwnnw.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1653 (Cy. 154)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) (Diwygio) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *3 Gorffennaf 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *4 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *4 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**).

Cafodd Gweinidogion Cymru eu dynodi at ddibenion yr adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir i'r cyfryw anifeiliaid.(**2**).

(**1**) 1972 p.68.

(**2**) Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 2) 2005 (O.S. 2005/1971) yw'r gorchymyn dynodi perthnasol. Roedd Erthygl 4 o'r gorchymyn hwnnw yn dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) ("y Cynulliad") at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 o ran y materion a bennir yn Atodlen 3 i'r gorchymyn hwnnw sy'n cynnwys mesurau mewn perthynas â bwyd (gan gynnwys diod) gan gynnwys cynhyrchu sylfaenol o ran bwyd a mesurau sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid a gynhyrchir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd neu a fwydir i'r cyfryw anifeiliaid. Mae'r swyddogaethau sy'n arferadwy gan y Cynulliad o dan y gorchymyn hwnnw wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30(2)(b) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).